# Hybysiad Preifatrwydd Ymwybyddiaeth Llifogydd a Rhybuddion Awtomataidd Cymru

## Enw a manylion cyswllt y Rheolwr Data

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r Rheolwr Data ac mae'r sefydliad wedi ymroi at ddiogelu hawliau unigolion yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

## Manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru Swyddog Diogelu Data, a gellir cysylltu ag ef drwy dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk 0300 065 3000

## Pa wybodaeth ydyn ni'n casglu amdanoch chi?

Enw, cyfeiriad a manylion cyswllt; rhifau ffôn; cyfeiriadau e-bost a, lle bo'n addas, lluniau.

## Sut fydd eich gwybodaeth chi'n cael ei ddefnyddio?

- Ymateb i ymholiadau/cwynion
- Er cynhwysiad yn y Cynlluniau Llifogydd Cymuned
- Er mwyn cysylltu â chi ynglŷn â'r risg llifogydd yn eich ardal
- Er mwyn eich gwahodd i gyfarfodydd a digwyddiadau ynglŷn â llifogydd
- Er mwyn eich cofrestru chi i dderbyn rhybuddion llifogydd am ddim drwy'r Gwasanaeth Rhybudd Llifogydd
- Darparu rhybuddion a hysbysiadau awtomataidd o system delemetrig CNC.
- Cysylltu â chi i wirio bod manylion yn dal yn gyfredol a bod angen yn parhau am y gwasanaeth.
- Er mwyn casglu gwybodaeth ynglŷn â lle rydym ni wedi bod yn gyfrifol am weithgareddau ymgysylltu
- I gadw cofnod o adnoddau a chyhoeddiadau sy'n cael eu rhannu gyda chi
- Lluniau a ddefnyddir ar ddeunyddiau i hyrwyddo'r Cynllun Llifogydd Cymunedol yn lleol
- Lluniau o ddigwyddiadau i'w defnyddio mewn adroddiadau mewnol ac i hyrwyddo digwyddiadau ar gyfryngau cymdeithasol

## Beth yw ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol?

Mae testun y data wedi rhoi ***caniatâd*** i'r prosesu – Erthygl 6

## Pwy sy'n derbyn eich gwybodaeth?

Cyfoeth Naturiol Cymru. Lle'r rydym ni'n ymateb i ymholiadau mae'n bosib y byddwn ni angen rhannu eich data gydag Awdurdodau Rheoli Risg eraill er mwyn ymateb i chi yn gywir. Gallai hyn gynnwys y Gwasanaethau Brys; Awdurdodau Lleol; Cwmnïau Dŵr a darparwyr gwasanaeth eraill.

Pan fyddwch wedi gofyn am dderbyn rhybuddion a hysbysiadau awtomataidd byddwn yn prosesu hyn ar system delemetrig CNC a Gwasanaeth Rhybuddion Llifogydd CNC.

Pan fyddwch chi wedi gofyn i gael eich cofrestru am Rybuddion Llifogydd am ddim, fe wnawn ni eu prosesu drwy Floodline.

Dim ond Cynlluniau Llifogydd Cymunedol fedr gael eu rhannu gyda'n Partneriaid Ymateb drwy Resilience Direct, platfform cadarn, aml-asiantaeth. Mae hyn yn galluogi eich cynllun i fod yn rhan o weithdrefnau ymateb brys pawb. (Ar hyn o bryd yng Ngogledd Cymru).

### Unrhyw drosglwyddiadau i drydydd gwledydd a'r dulliau diogelu sydd yn eu lle

Dim.

### Am faint fydd eich gwybodaeth chi'n cael ei gadw?

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth a'i ddefnyddio tan i chi roi gwybod i ni nad ydych chi bellach eisiau derbyn y wybodaeth gan CNC.

### Beth yw'r hawliau unigol?

**Mae gennych chi'r hawl i gael gafael ar eich gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol, i gywiro, i waredu, i gyfyngu ac i gludo eich gwybodaeth bersonol. Ewch i'n gwefannau Diogelwch Data am wybodaeth bellach ynglŷn â'ch hawliau.**

Dylai unrhyw geisiadau neu ymholiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig i Swyddog Diogelwch Data CNC: -

**E-bost – dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

**Swyddog Diogelu Data**
**Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Maes y Ffynnon**
**Ffordd Penrhos**
**Bangor**
**Gwynedd**
**LL57 2DW**

### Diogelwch eich Gwybodaeth

Bydd eich data'n cael ei gadw'n ddiogel gyda mynediad wedi'i gyfyngu ar system rheoli dogfennau Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae Cynlluniau Llifogydd Cymuned yn eiddo i'r cymunedau maent wedi eu hysgrifennu ar eu cyfer, ac felly mae modd eu rhannu nhw â'r cymunedau hynny. Ni fydd CNC na'i phartneriaid yn gwneud cynlluniau'n agored i'r cyhoedd.

### Sut i wneud cwyn

Os nad ydych chi'n hapus gyda'r ffordd mae eich data personol yn cael ei brosesu mae modd cysylltu gyda Swyddog Diogelwch Data CNC drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych chi'n parhau i fod yn anhapus yna mae gennych yr hawl i wneud cais yn uniongyrchol at y Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth ar:-

**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,**
**Wycliffe House,**
**Water Lane,**
**Wilmslow,**
**Cheshire,**
**SK9 5AF**

**www.ico.org.uk**